# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-03-11**

## CA 519 : Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau") yn gwneud trefniadau newydd ar gyfer hysbysu, ystyried ac ymateb i bryderon a hysbysir gan bersonau mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan neu o dan drefniadau gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n gweithredu darpariaethau Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 ("y Mesur").

### Craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn am y rhesymau a ganlyn:-

1.Nid yw nifer o'r pwerau y dibynnir arnynt i wneud y Rheoliadau hyn wedi cael eu cychwyn eto. Fe'u cynhwysir yn y Mesur ac yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Deallir bod y Gorchmynion Cychwyn wedi'u drafftio ac y bwriedir eu gwneud cyn i'r Rheoliadau gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn. [Rheol Sefydlog 15.2(i)]

2.Yn nhestun Cymraeg rhan olaf rheoliad 34(3), mae'r geiriau 'gwasanaethau eilaidd neu drydyddol' yn ymddangos. Nid oes cymal cyfatebol yn y testun Saesneg. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

3.Yn nhestun Saesneg rheoliad 43(2), mae'r geiriau 'that notified the concern to the Welsh NHS body' yn ymddangos. Nid oes cymal cyfatebol yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

### Craffu ar ragoriaethau

Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2008 oedd y Mesur Cynulliad cyntaf i gael ei basio gan y Cynulliad a'r Rheoliadau hyn yw'r rhai cyntaf i gael eu gwneud o dan y Mesur hwnnw (er y caiff rhai darpariaethau yn y Rheoliadau eu gwneud o dan bwerau a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan ddeddfwriaeth San Steffan).

Roedd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth (fel yr oedd bryd hynny) yn pryderu y dylai rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan y Mesur fod yn destun gwaith craffu trwyadl. Felly, mae'r Aelodau wedi cael papur cefndir gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, yn nodi rhai o bryderon y Pwyllgor ar y pryd, ynghyd â gwybodaeth am y trefniadau ymgynghori cymwys a'r gwelliannau a wnaed i'r rheoliadau drafft yn dilyn gwaith ymgynghori.

O ystyried y cefndir hwn, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried a ddylai gyflwyno adroddiad ar "ragoriaethau" i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 15.3.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Ionawr 2011**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Derbynnir pob pwynt adrodd. Dyma a wnawn i gywiro'r pwyntiau hynny.

Lluniwyd gorchmynion i gychwyn yr adrannau perthnasol o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 a Mesur Iawn y GIG (Cymru) 2008. Cânt eu gwneud yn yr wythnos sy'n dechrau 31 Ionawr cyn i'r Rheoliadau gael eu trafod mewn cyfarfod llawn ar 8 Chwefror.

Pwyntiau adrodd dau a thri.

Nododd y rhain fân anghysonderau rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Rheoliadau fel y'u gosodwyd. Y fersiwn Saesneg yw'r fersiwn gywir. Mae'r cyfreithiwr drafftio wedi trafod y mater hwn â Phennaeth yr Uned Rheoli Deddfwriaeth, a chytunwyd y gellir cywiro'r anghysonderau hyn wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.